

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**  
**Dydd Mawrth 15 Rhagfyr 2017 2.30 – 4.30 pm**  
**Neuadd y Ddinas, Ystafell L**



<p><b><u>Yn bresennol</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd:</b></p> <p>Y Cyngorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>          Maria Battle <b>(Is-gadeirydd)</b>          Paul Orders          Sarah McGill</p> <p>Fiona Kinghorn</p> <p>Sheila Hendrickson-Brown          Mark Brace          Dai Bents          Bydd yr Uwcharolygydd Stephen Jones          Jo Salway          John Hogg</p> <p>Joseph Reay          Hannah Williams</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b></p> <p>Len Richards          Peter Vaughan          Huw Jakeway          Peter Greenhill</p> <p>Victoria Harris          Abigail Harris</p> <p>Gareth O'Shea</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b></p> <p>Gareth Newell          Nathan Swain (Clerc)</p>	<p>Arweinydd Cyngor Caerdydd</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP C&amp;F)          Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd          Cyfarwyddwr - Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Caerdydd</p> <p>Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol, C3SC          Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu          Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru          Heddlu De Cymru</p> <p>Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru          Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd          Pennaeth yr Uned Ddarpariaeth Leol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</p> <p>Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro          Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru          Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru          Pennaeth Uned Ddarpariaeth Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru</p> <p>Pennaeth Dros Dro Uned Ddarpariaeth Leol Caerdydd a'r Fro          Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC</p> <p>Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, Cyngor Dinas Caerdydd          Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd</p>
---	---

Clive Bailey Anne Wei	Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP C&F
<b>Eitem 3</b> Dr Tom Porter	Ymgynghorydd Allanol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
Andrew Gregory Y Cynghorydd Caro Wild	Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, Cyngor Caerdydd Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
<b>Eitem 4</b> Ruth McDonald Louise Bassett	Cydlynnydd Dysgu, Gweithredu yn Nhrelái a Chaerau (ACE) Arweinydd y Tîm Cyflawni Partneriaethau, Cyngor Caerdydd
<b>Eitem 5</b> Heather Webber	Cydlynnydd Cymorth Cymunedol, Cyngor Caerdydd

Rhif	Eitem ar yr agenda	
1.	<b>Croeso a Chyflwyniad</b> Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nodi'r ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	<b>Cofnodion a chymau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 29 Medi 2017</b> Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd.  <b>Cofnodion drafft Bwrdd Cyflawni'r BGC - 24 Tachwedd 2017</b> Ni chodwyd unrhyw faterion.	
3.	<i>Rheolir Amcan 2 y Cynllun Llesiant Drafft – Twf ym Mhoblogaeth Caerdydd yn dda)</i>  <b>'Symud ymlaen: Teithio iach i bawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg'</b>  Rhoddodd Dr Tom Porter drosolwg o brif ganfyddiadau Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd – 'Symud ymlaen: Teithio iach i bawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg':  Nododd fod cyfle gan wasanaethau cyhoeddus i arwain y ffordd gydag annog teithio llesol a gwneud effaith sylweddol ar iechyd a llesiant trigolion Caerdydd.	

	<p>Cefnogodd y Cynghorydd Caro Wild ac Andrew Gregory ganfyddiadau Adroddiad Blynyddol CIC, a nodon nhw fod disgwyl i'r Cyngor lansio Papur Gwyrdd ar awyr glân a theithio llesol.</p> <p>Cytunwyd i lunio cynllun teithio llesol cynaliadwy ar gyfer staff yn y sector cyhoeddus i gyd. Bu trafodaeth ar bwysigrwydd gyfleu neges sy'n annog teithio llesol gyda'r nod y bydd yn dod yn beth arferol. Bu trafodaeth hefyd ar sicrhau bod polisïau hawlio milltiroedd wedi'u haddasu'n effeithiol er mwyn cynorthwyo gyda'r newid ymddygiadol.</p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunodd yr holl aelodau o'r BGC y bydd eu sefydliadau'n ystyried gweithio tuag at darged o gael 20% o staff yn teithio'n llesol erbyn 2022.</li> <li>• Caiff cyfarfod ei drefnu gyda swyddogion priodol o sefydliadau BGC i ddatblygu cynllun teithio llesol cynaliadwy a chyfrannu at y Papur Gwyrdd ar awyr glân/teithio llesol.</li> <li>• Agwedd ar y cyd at ymwybyddiaeth gyhoeddus gyda chyfathrebiadau ar y cyd am CIC cyn i'r Papur Gwyrdd ar Awyr Glân a Thrafnidiaeth gael ei gyhoeddi.</li> <li>• Cymeradwyo Papur Gwyrdd / Adroddiad Blynyddol CIC i'w rhoi, lle bo'n briodol, i sefydliadau BGC.</li> <li>• Manylion am gynllun Llogi Beiciau Caerdydd i gael eu rhannu gyda'r BGC.</li> <li>• Data Gwrthdrawiadau / Damweiniau Traffig Ffyrdd i gael ei rannu gan y Gwasanaeth Tân</li> </ul>	<p><b>Andrew Gregory</b></p> <p><b>Tom Porter/ Andrew Gregory/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Andrew Gregory/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Andrew Gregory/Yr ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Dai Bents/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Project Ardal Leol Trelái a Chaerau</b></p> <p>Rhoddodd Gareth Newell gyflwyniad yn nodi ymchwil pellach i gefnogi'r agwedd blant yn gyntaf yn Nhrelái a Chaerau, gan gynnwys dadansoddiad o atgyfeiriadau plant i'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH).</p> <p>Rhoddodd Ruth McDonald drosolwg o faterion yn ymwneud â'r broses atgyfeirio a nodwyd gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr ardal, sylwadau gan rieni a trwy fapio gwasanaethau. Tynnwyd sylw at yr angen am borth unigol ar gyfer gwasanaethau, canolbwynt ar atal a harneisio agwedd cymuned gyfan.</p>	

	<p>Cytunwyd na allai'r MASH fod y llwybr cywir ar gyfer y rhan fwyaf o achosion. Bu trafodaeth ar ddatblygu a threalu model yn Nhrelái a Chaerau a fyddai'n golygu bod atgyfeiriadau'n cael eu hystyried trwy bwynt mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau a'u hatgyfeirio i'r MASH fel sy'n briodol.</p> <p>Bu trafodaeth ar rannu gwybodaeth a chaniatâd yr unigolyn er mwyn galluogi cymryd camau.</p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaglen o waith ar gyfer Project Plant yn Gyntaf Trelái/Caerau i gael i datblygu gyda llywodraethu cysylltiedig a'i hystyried mewn cyfarfod Bwrdd Cyflawni'r BGC yn y dyfodol.</li> <li>• Enghraifft o Wasanaethau Byw'n Annibynnol i gael ei rannu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r model.</li> </ul>	<p><b>Sarah McGill</b></p> <p><b>Sarah McGill</b></p>
5.	<p><b>Porth Gwirfoddoli</b></p> <p>Rhoddodd Heather Webber drosolwg o Borthol Gwirfoddoli Caerdydd. Mae'r wefan yn rhoi porth i sefydliadau'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghaerdydd heb angen cofrestru.</p>	
6.	<p><b>'Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar – Ein Cynllun 2017-2022'</b></p> <p><b>CYMERADWYWYD</b> Strategaeth economi'r nos Caerdydd.</p>	
7.	<p><b>Unrhyw fusnes arall</b></p> <p><b>a) Dinasoedd Cynhwysol</b> Mae sylwadau ar aelodaeth y tasglu a'r strwythur llywodraethu wedi'u gwahodd gyda dyddiad cau o 15 Rhagfyr 2017.</p> <p><b>b) Amserlen Gymeradwyo BGC</b> Nodwyd yr amserlen a chytunwyd arni.</p> <p><b>c) Eitemau Agenda i'r Dyfodol</b></p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gareth Newell i gylchredeg nodyn ar eitemau i'r dyfodol.</li> <li>• Eitemau Agenda i'r Dyfodol i fod yn eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Cyflawni a'r BGC.</li> </ul>	<p><b>Gareth Newell</b> <b>Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p>
	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b></p> <p>Bwrdd Cyflawni'r BGC: 16 Ionawr 2018, 1.30 – 4.30pm Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd: 27 Chwefror 2018, 1.30-4.30pm</p>	

## BGC Llawn 12 Rhagfyr 2017 – Camau Gweithredu

Eitem	Camau Gweithredu	Yn gyfrifol
2.	<p>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2017.</p> <p>Cofnodion drafft Bwrdd Cyflawni'r BGC, 24 Tachwedd 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni chodwyd unrhyw faterion.</li> </ul>	
3.	<p><b>'Symud ymlaen: Teithio iach i bawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg'</b></p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cytunodd yr holl aelodau o'r BGC y bydd eu sefydliadau'n ystyried gweithio tuag at darged o gael 20% o staff yn teithio'n llesol erbyn 2022.</li> <li>Caiff cyfarfod ei drefnu gyda swyddogion priodol o sefydliadau BGC i ddatblygu cynllun teithio llesol cynaliadwy a chyfrannu at y Papur Gwyrdd ar awyr glân/teithio llesol.</li> <li>Agwedd ar y cyd at ymwybyddiaeth gyhoeddus gyda chyfathrebiadau ar y cyd am CIC cyn i'r Papur Gwyrdd ar Awyr Glân a Thrafnidiaeth gael ei gyhoeddi.</li> <li>Cymeradwyo Papur Gwyrdd / Adroddiad Blynyddol CIC i'w rhoi, lle bo'n briodol, i sefydliadau BGC.</li> <li>Manylion am gynllun Llogi Beiciau Caerdydd i gael eu rhannu gyda'r BGC.</li> <li>Data Gwrthdrawiadau / Damweiniau Traffig Ffyrdd i gael ei rannu gan y Gwasanaeth Tân</li> </ul>	<p><b>Andrew Gregory</b></p> <p><b>Tom Porter/ Andrew Gregory/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Andrew Gregory/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Andrew Gregory/Yr ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Dai Bents/ Yr Ysgrifenyddiaeth</b></p>
4.	<p><b>Project Trelái a Chaerau</b></p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglen o waith ar gyfer Project Plant yn Gyntaf Trelái/Caerau i gael i datblygu gyda llywodraethu cysylltiedig a'i hystyried mewn cyfarfod Bwrdd Cyflawni'r BGC yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Sarah McGill</b></p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Enghraifft o Wasanaethau Byw'n Annibynnol i gael ei rannu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r model.</li> </ul>	<b>Sarah McGill</b>
5.	<p><b>Porth Gwirfoddoli</b></p> <p>Dim camau gweithredu</p>	
6.	<p><b>'Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar – Ein Cynllun 2017-2022'</b></p> <p><b>CYMERADWYWYD</b> Strategaeth economi'r nos Caerdydd.</p>	
7.	<p><b>Unrhyw fusnes arall</b></p> <p><b>a) Dinasoedd Cynhwysol</b> Dim angen camau gweithredu</p> <p><b>b) Amserlen Gymeradwyo BGC</b> Dim angen camau gweithredu</p> <p><b>c) Eitemau Agenda i'r Dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gareth Newell i gylchredeg nodyn ar eitemau i'r dyfodol.</li> <li>• Eitemau Agenda i'r Dyfodol i fod yn eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Cyflawni a'r BGC.</li> </ul>	<b>Gareth Newell</b> <b>Yr Ysgrifenyddiaeth</b>